Hawdd ei Ddeall

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd

Beth wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru rhwng 2022 a 2023



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd**'.

Hydref 2023

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 26**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn cyfeirio tuag at **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.arolygiaethgofal.cymru

**E-bost:** agc@llyw.cymru

**Ffôn:** 0300 7900 126

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif Trwydded Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........ 2**

**Pwy ydyn ni ........ 4**

Ein Bwrdd Cynghori ........ 7

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod ........ 8**

**Gwaith rydyn ni wedi'i wneud gyda chynghorau lleol a gwasanaethau cymdeithasol ........ 11**

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod am wasanaethau oedolion ........ 13

Beth rydyn ni'n ei wybod am wasanaethau plant ........ 14

**Gwybodaeth am wasanaethau oedolion a phlant rydyn ni'n edrych arnyn nhw ........ 15**

Gwasanaethau gofal i oedolion ........ 16

Cartrefi plant ........ 17

**Gwasanaethau gofal plant a chwarae ........ 20**

**Cadw pobl yn ddiogel ........ 22**

**Ein costau ........ 25**

**Geiriau Anodd ........ 26**

# Pwy ydyn ni

**Arolygiaeth Gofal Cymru** ydyn ni.



Ein gwaith ni ydy edrych i weld bod gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau plant yn rhedeg yn dda.




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr eu bod o safon uchel ac yn ddiogel.



Ein nod ydy gwneud yn siŵr bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu rhoi yn gyntaf.



Rydyn ni hefyd yn gofyn i sefydliadau ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl amdanom ni. Rydyn ni wedi derbyn sylwadau da iawn.





Dyma rai o'n prif amcanion. Fe fyddwn ni yn:



- Rhoi pobl yn gyntaf.




- Edrych ar y ffeithiau.



- Gwrando ar eraill a gweithio gyda'n gilydd.



- Cefnogi sefydliadau i wella.



- Gwella beth rydyn ni yn ei wneud.




Mae gennym ni gynllun ar gyfer y pethau rydyn ni eisiau eu gwneud erbyn 2025. Y prif bethau ydy:



- Bod pobl yn hyderus ein bod yn helpu i wella pethau.



- Rhedeg gwasanaeth o ansawdd uchel.



- Gwneud ein gwaith yn dda.




- Defnyddio’r Gymraeg yn fwy yn ein holl waith.



- Gwrando ar beth mae pobl yn feddwl.

## Ein Bwrdd Cynghori



Mae ein Bwrdd Cynghori yn edrych ar ein gwaith. Mae'n helpu i wneud yn siŵr bod pobl wedi clywed amdanom ni.




Mae'r bwrdd yn credu bod angen i ni barhau i gefnogi pobl rhag effeithiau COVID-19.



Cawsom gyngor gan y bwrdd am nifer o faterion. Maen nhw eisiau i ni ofyn am farn y pobl sy'n defnyddio gwasanaethau.





Maen nhw hefyd wedi gofyn i'r adroddiad yma fod yn hawdd ei ddeall.




Mae gwybodaeth am gyfarfodydd y Bwrdd Cynghori ar ein gwefan:

[www.arolygiaethgofal.cymru/bwrdd-cynghori-cenedlaethol](www.arolygiaethgofal.cymru/bwrdd-cynghori-cenedlaethol)

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod




Dyma beth sydd wedi digwydd rhwng 2022 a 2023.



Mae'r nifer y bobl sydd angen gofal a chymorth wedi cynyddu. Mae hyn wedi rhoi llawer o bwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol.



Mae angen i fwy o bobl gael eu **hasesu**. Mae oedi wedi bod mewn cwblhau asesiadau ar draws Cymru.

> Mae **asesu** yn meddwl darganfod pa gymorth mae rhywun ei angen.



Mae hyn wedi rhoi mwy o bwysau ar deuluoedd a gofalwyr.



Mae cynghorau lleol yn ei chael hi'n fwy anodd gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gofal maen nhw ei angen.



Mae hyn oherwydd bod cymaint mwy o bobl angen cefnogaeth.



Er mwyn helpu i ddelio â hyn, rydyn ni yn credu bod angen i bobl gael help yn fwy cynnar.



Rydyn ni hefyd yn credu bod angen i sefydliadau gydweithio'n dda. Fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir.



Does dim digon o staff yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu wasanaethau plant.



Mae llawer o waith wedi'i wneud i wella'r amodau ar gyfer staff. Mae hyn er mwyn helpu mwy o bobl i ddewis y swydd hon. Rydyn ni yn credu bod angen i'r gwaith barhau.



Mae'n bwysig iawn bod staff gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn eu helpu iddynt wneud eu gwaith yn dda.




Does dim digon o lefydd i blant sydd angen gofal i fynd i fyw.



Rydyn ni'n credu bod angen i wasanaethau gydweithio mwy er mwyn helpu i wella hyn.



Mae llawer o waith da iawn yn cael ei wneud. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod plant ac oedolion yn derbyn gwasanaethau da.



Rydyn ni eisiau i wasanaethau barhau â'r gwaith da maen nhw yn ei wneud. Hefyd, iddyn nhw barhau i geisio gwella.

# Gwaith rydyn ni wedi'i wneud gyda chynghorau lleol a gwasanaethau cymdeithasol




Rydym wedi newid sut rydyn ni yn edrych ar waith cynghorau lleol a gwasanaethau cymdeithasol.




Roedd y newidiadau rydyn ni wedi eu gwneud yn ein **Cod Ymarfer**. Mae'r rhain yn rheolau am sut rydyn ni yn gweithio.




Mae gennym ni wahanol fathau o archwiliadau ar waith. Maen nhw yn gwneud yn siŵr bod cynghorau lleol a gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda.




Rydych chi'n gallu gwylio fideo am y gwaith yma: www.youtube.com/watch?v=dwH9DosTUK4



Rydyn ni yn helpu cynghorau lleol i ddeall beth maen nhw yn ei wneud yn dda.




Rydyn ni hefyd yn eu helpu i ddeall beth mae angen iddyn nhw ei wneud yn well.



Rydyn ni yn ymchwilio i waith sy'n cael ei wneud i gadw plant yn ddiogel.



Rydyn ni wedi gofyn i dros 800 o bobl, sy'n defnyddio gofal cymdeithasol, beth maen nhw'n feddwl.



Fe wnaethon ni ofyn os oedden nhw'n teimlo bod eu cyngor lleol yn gwrando arnyn nhw.



Er enghraifft, fe wnaethon ni ofyn i'r grŵp **Pobl yn Gyntaf** beth roedden nhw'n feddwl.



Roedden nhw'n dweud ei bod yn gallu bod yn anodd mynd drwodd i'r gwasanaethau cymdeithasol.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod am wasanaethau oedolion



Mae cynghorau lleol yn gwneud llawer o waith da i helpu pobl.



Ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd oherwydd bod cymaint o bobl angen cefnogaeth.



Fe wnaethon ni weld llawer o waith da yn digwydd sy'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu rhoi yn gyntaf.



Mae'n bwysig rhoi'r gefnogaeth mae pobl ei angen yn gynnar. Cyn i broblemau iechyd fynd yn waeth.

# Beth rydyn ni'n ei wybod am wasanaethau plant



Wrth edrych i mewn i wasanaethau plant, fe wnaethon ni weld nad oes digon o staff



Mae hyn yn meddwl bod llawer o newidiadau staff yn gallu digwydd. Mae hyn yn gallu bod yn anodd i blant.



Fe wnaethon ni weld fod plant sydd angen mynd i ofal yn aml yn cael eu symud ymhell o'u cartrefi.





Fe wnaethon ni weld fod angen mwy o wybodaeth am blentyn yn aml.



Fe wnaethon ni hefyd weld fod plant yn aml angen mwy o ran yn eu gofal.

# Gwybodaeth am wasanaethau oedolion a phlant rydyn ni'n edrych arnyn nhw



Mae dros 2000 o wasanaethau oedolion a phlant wedi'u cofrestru gyda ni ar draws Cymru.



Rydyn ni hefyd yn cofrestru meithrinfeydd a gwarchodwyr plant. Rydych chi'n gallu darllen mwy am hyn ar dudalen 20.



Rydyn ni wedi gwneud dros 1400 o **arolygiadau**.

**Arolygiad** ydy pan fyddwn ni yn edrych i weld pa mor dda mae gwasanaeth yn rhedeg. Rydyn ni yn edrych i weld ei fod yn ddiogel ac pobl yn cael eu rhoi yn gyntaf.




Fe wnaethon ni roi hysbysiadau i 185 o wasanaethau eu bod nhw wedi torri'r rheolau.

## Gwasanaethau gofal i oedolion



Ym mis Mawrth 2023 roedd 1016 o gartrefi gofal i oedolion. Mae hyn wedi gostwng ychydig ers mis Mawrth 2022.



Y prif reswm pam bod gwasanaethau wedi cau ydy oherwydd nad oedden nhw yn gallu fforddio rhedeg.




Fe wnaethon ni hefyd gau rhai gwasanaethau gofal gan nad oedden nhw'n dilyn y rheolau.



Mae cynnydd wedi bod mewn **gwasanaethau cymorth cartref**.

> **Gwasanaethau cymorth cartref** ydy pan fydd pobl yn cael cymorth yn eu cartref eu hunain.



Ond does dim digon o wasanaethau ar gael i bobl o hyd.


## Cartrefi plant



Mae cynnydd wedi bod yn nifer y cartrefi plant yng Nghymru.



Mae rhai cartrefi plant hefyd wedi cau am resymau gwahanol.



**Roedd rhai o'r problemau rydyn ni wedi eu gweld gyda gwasanaethau oedolion a phlant yn ymwneud â:**



- Arwain a rheoli.



- Recriwtio staff.



- Cadw staff.




- Defnyddio’r Gymraeg.




- Mwy o adroddiadau i ni am **ddiogelu**.

  Mae **diogelu** yn golygu materion am sut i gadw pobl yn ddiogel.



- Roedd rhaid i ni wneud **arolygiadau** brys oherwydd pryderon oedd wedi cael eu hadrodd i ni.




- Roedd 158 o faterion am wasanaethau a oedd yn torri’r gyfraith.



- Roedd rhaid i 6 cartref gofal oedolion gau.



- Roedd rhaid i 2 **wasanaeth cymorth cartref** gau.



**Dyma rai o'r pethau da wnaethon ni eu gweld:**



- Roedd mwy o fyfyrwyr gofal iechyd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol.



- Ar y cyfan, roedd gennym lai o adroddiadau o bryderon.



- Rydyn ni wedi gweithio gyda'r heddlu i helpu i gefnogi plant.



- Fe wnaethon ni weithio'n dda gyda chynghorau lleol a byrddau iechyd.

# Gwasanaethau gofal plant a chwarae



Mae gennym ni bron i 3,500 o wasanaethau gofal plant a chwarae wedi'u cofrestru gyda ni. Mae hyn ychydig yn llai na'r llynedd.




Bu i ni dderbyn 549 o adroddiadau o bryderon. Mae hyn ychydig yn uwch na'r flwyddyn diwethaf.



Fe wnaethon ni wneud dros 700 o **arolygiadau**.



Fe wnaethon ni weld bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau'n dda. Ond roedd 48 yn wael.



Mae gennym ni brosiect i helpu i gefnogi gwasanaethau i wella.



Rydyn ni wedi ei gwneud hi’n haws i bobl ddweud wrthyn ni am wasanaethau gofal plant a chwarae.



Roedd y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn credu bod eu plant yn hapus gyda’r gwasanaeth roedden nhw yn mynd iddo.




Mae angen gwneud mwy i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio.



# Cadw pobl yn ddiogel




Cadw pobl yn ddiogel ydy'r peth mwyaf pwysig rydyn ni'n ceisio'i wneud.



Rydyn ni yn gweithio gyda chynghorau lleol sy'n gyfrifol am gadw pobl yn ddiogel.




Rydyn ni wedi gwneud 2 adolygiad mawr am gadw plant yn ddiogel.





Roedd yr un cyntaf am y **Gofrestr Amddiffyn Plant**. Dyma restr o blant sydd mewn perygl o niwed.



Mae'r adolygiad am pa mor dda mae'r gofrestr yn gweithio.




Fe fydd adroddiad llawn ar hyn yn hydref 2023.



Mae adolygiad arall o’r enw **Cyd-Arolygu trefniadau amddiffyn plant**.



Mae hyn yn edrych ar pa mor dda mae sefydliadau’n gweithio gyda’i gilydd i gadw plant yn ddiogel.



Mae am blant 11 oed neu iau.




Fe fyddwn ni yn gwneud yr adolygiad yma tan 2024.



Ym mis Chwefror 2023 fe wnaeth adroddiad am **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid** gael ei gyhoeddi.




Mae hyn i wneud yn siŵr bod hawliau dynol pobl yn cael eu **diogelu** pan fyddan nhw yn derbyn gofal.



Rydyn ni yn edrych i weld pa mor dda mae'r system ar gyfer rheoli hyn yn gweithio.

# Ein costau




Y llynedd, fe gawson ni 15.3 miliwn o bunnoedd o gyllid.



Mae bron pob un o’n costau yn mynd ar staffio.



# Geiriau Anodd

### Arolygiad

Dyma pryd rydyn ni'n edrych i weld pa mor dda mae gwasanaeth yn rhedeg. Rydyn ni yn edrych i weld ei fod yn ddiogel a bod pobl yn cael eu rhoi yn gyntaf.

### Asesu

Mae hyn yn meddwl darganfod pa gymorth mae rhywun ei angen.

### Diogelu

Mae hyn yn golygu materion am sut i gadw pobl yn ddiogel.

### Gwasanaethau cymorth cartref

Dyma pryd mae pobl yn cael cefnogaeth yn eu cartrefi eu hunain.